OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 1339

Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018

RHAN 5

Gofynion ar ddarparwyr awdurdodau lleol - diogelu

Polisïau a gweithdrefnau diogelu

20.—(1) Rhaid i'r darparwr awdurdod lleol gael polisïau a gweithdrefnau yn eu lle—

(a) ar gyfer atal camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol, a

(b) ar gyfer ymateb i unrhyw honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol.

(2) Yn y rheoliad hwn, cyfeirir at bolisïau a gweithdrefnau o'r fath fel polisïau a gweithdrefnau diogelu.

(3) Rhaid i'r darparwr awdurdod lleol sicrhau bod ei bolisïau a'i weithdrefnau diogelu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

(4) Yn benodol, pan fo honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol, rhaid i'r darparwr awdurdod lleol—

(a) gweithredu yn unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau diogelu,

(b) cymryd camau gweithredu ar unwaith i sicrhau diogelwch pob plentyn y darperir gofal a chymorth ar ei gyfer,

(c) gwneud atgyfeiriadau priodol i asiantaethau eraill, a

(d) cadw cofnod o unrhyw dystiolaeth neu sylwedd unrhyw honiad, unrhyw gamau gweithredu a gymerir ac unrhyw atgyfeiriadau a wneir.